Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Glan Ceubal
# Colwill Road
# Gabalfa
# Cardiff
# CF14 2QQ

## Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2013

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**



**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 14/02/2014**

## Cyd-destun

Sefydlwyd Ysgol Glan Ceubal gan awdurdod lleol Caerdydd yn 2009, fel ateb i’r galw cynyddol am addysg Gymraeg yn y ddinas. Lleolir yr ysgol ym maestref Gabalfa yng Ngogledd Caerdydd. Mae’r ysgol yn gwasanaethu ardal Gabalfa a’r cyffiniau yn bennaf. Mae’r ysgol hon yn rhannu safle gyda dwy ysgol arall, sef un ysgol gynradd cyfrwng Saesneg ac ysgol arbennig.

Ar hyn o bryd, mae 42 o ddisgyblion rhwng pedair a naw oed ar gofrestr yr ysgol. Nid oes disgyblion ym Mlynyddoedd 5 a 6. Fe’u derbynnir yn amser llawn ar ddechrau’r tymor maent yn bedair oed. Ar y cyfan, fe’u haddysgir mewn tri dosbarth o oed cymysg. Mae niferoedd y disgyblion wedi tyfu dros y blynyddoedd diwethaf.

Cymraeg yw prif gyfrwng yr addysgu a dysgu yn yr ysgol a disgwylir i bob disgybl fod yn rhugl yn y Gymraeg a’r Saesneg erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Ni ddaw unrhyw ddisgybl o gartrefi ble siaredir Cymraeg ar yr aelwyd. Ar hyn o bryd, daw tua 12% o ddisgyblion yr ysgol o gefndir lleiafrifol ethnig cymysg.

Mae tua 29% o’r disgyblion â’r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim, ffigwr sydd yn uwch na’r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol. Mae tua 24% o ddisgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol. Hwn yw arolygiad cyntaf yr ysgol.

Penodwyd y pennaeth gweithredol dros dro i’w swydd ym Medi 2012, yr uwch bennaeth cynorthwyol yn barhaol ym Medi 2013 a’r pennaeth cynorthwyol ym Medi 2009. Cyflogir dau athro amser llawn a dau rhan amser. Cânt eu cynorthwyo gan dri aelod o staff cymorth dysgu rhan amser.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Glan Ceubal yn 2013-2014 yw £7,890. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Nghaerdydd yw £7,890 a'r lleiafswm yw £2,856. Mae Ysgol Glan Ceubal yn y safle cyntaf o 96 ysgol gynradd yng Nghaerdydd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- bron pob disgybl yn frwdfrydig, yn gwrando'n astud ac yn cyfrannu'n dda yn y sesiynau dysgu;
- y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd ac yn datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus;
- bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn derbyn gofal a chefnogaeth dda iawn gan yr ysgol;
- ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion ar bob adeg yn dda iawn; a bod
- athrawon yr ysgol yn ymroddgar a'r addysgu'n dda.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- yr uwch dîm rheoli presennol yn cynnig arweinyddiaeth effeithiol ac maent wedi llunio gweledigaeth glir a chytûn ynglŷn â chyfeiriad strategol a gwerthoedd yr ysgol;
- y rheolwyr wedi cyflwyno nifer o flaengareddau buddiol ar gyfer datblygiad y cyfnod nesaf yn hanes yr ysgol;
- sustemau hunanarfarnu cynhwysfawr yn eu lle sydd yn arwain at ddarlun dilys o'r agweddau lle mae angen gwelliant;
- cynllun datblygu'r ysgol yn nodi blaenoriaethau clir a strategaethau addas ar gyfer eu gweithredu; a bod
- diwylliant cryf o gydweithio a chefnogi rhwng holl aelodau staff yr ysgol.

## Argymhellion

A1 Codi safonau ysgrifennu estynedig yn y ddwy iaith yng nghyfnod allweddol 2

A2 Codi safonau cyflwyniad a llawysgrifen yng nghyfnod allweddol 2

A3 Cynnig mwy o her i ddisgyblion mwy abl a thalentog

A4 Datblygu rôl y corff llywodraethol i fod yn gyfeillion beirniadol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
| --- | --- |

**Safonau: Da**

Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae medrau sylfaenol y mwyafrif o'r disgyblion, wrth ddechrau'r ysgol, yn amrywio'n fawr ac yn aml yn llawer is na'r disgwyl. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da ym mhob un o'r meysydd dysgu, yn enwedig yn eu defnydd o iaith, llythrennedd a'u medrau cyfathrebu yn y Gymraeg. Yn y gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio'n gynhyrchiol ac yn gwneud cynnydd priodol.

Mae medrau llafar y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2. Maent yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn eiddgar. Maent yn siarad yn gynyddol gywir am eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio'r Gymraeg yn gynyddol naturiol wrth sgwrsio â'i gilydd.

Ar y cyfan, mae medrau darllen y disgyblion yn datblygu'n briodol ar draws yr ysgol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen. Maent yn darllen yn gywir ac yn unol â'u hoedran a'u gallu. Mae'r disgyblion mwy abl yn lliwio'r mynegiant yn dda. Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn darllen yn briodol i'w hoed a'u darllen yn y ddwy iaith. Mae'r disgyblion mwy abl yn darllen yn hyderus ac yn defnyddio mynegiant priodol. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r testun.

Mae mwyafrif o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn dangos datblygiad parhaus o ran medrau ysgrifennu cynnar. Maent hefyd yn gwneud cynnydd cychwynnol priodol yn eu gallu i ysgrifennu'n annibynnol. Defnyddiant eirfa ac ymadroddion yn gynyddol gywir. Maent yn amrywio brawddegau ac yn defnyddio atalnodau yn hyderus. Mae safon llawysgrifen a chyflwyniad y gwaith ysgrifenedig yn daclus yn y Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu gallu i ysgrifennu i ystod gynyddol o bwrpasau yn y ddwy iaith yn ôl eu gallu. Fodd bynnag, nid yw cyflwyniad y gwaith a llawysgrifen y disgyblion yn ddestlus. Nid yw disgyblion o allu uwch yn datblygu'n llawn eu gallu i ysgrifennu'n greadigol nac i ysgrifennu'n estynedig ar draws y cwricwlwm yn y ddwy iaith.

Mae medrau'r disgyblion yn datblygu'n briodol ar draws yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau meddwl a'u medrau ymchwilio yn bwrpasol yn eu gwaith ar draws y pynciau.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn briodol, gallant gyfrif yn hyderus, maent yn adnabod yr amser a siapiau 2D yn llwyddiannus. Erbyn cyfnod allweddol 2, mae gan y disgyblion mwy abl ddealltwriaeth glir o strategaethau rhifedd ac maent yn defnyddio'r strategaethau hyn ar draws y

cwricwlwm. Maent hefyd yn defnyddio technoleg gwybodaeth yn hyderus i ddatblygu eu medrau rhifedd.

Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cyson a pharhaus, yn aml o lefelau isel iawn. Maent yn gwneud cynnydd priodol mewn perthynas â'r targedau yn eu cynlluniau addysg unigol eleni.

Rhaid trin asesiadau athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen gyda gofal oherwydd bod y niferoedd bychan o blant mewn grŵp blwyddyn yn gallu effeithio'n sylweddol ar berfformiad ysgol o un flwyddyn i'r llall.

Yn 2013, roedd canran disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cyflawni'r dangosydd Cyfnod Sylfaen yn is na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion a Chymru. Roedd cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'n uwch na'r lefel ddisgwyliedig hefyd yn is ym mhob maes dysgu.

O gymharu canlyniadau'r ysgol ag ysgolion tebyg o ran y canran o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, roedd yr ysgol yn perfformio yn y 50% isaf ar gyfer yr holl ddangosyddion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Yn 2012, roedd yr ysgol yn perfformio yn y 25% uchaf ar gyfer yr holl ddangosyddion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.

Oherwydd bod carfanau bach iawn yn yr ysgol, nid yw'n bosibl dod i farn ystyrlon ar batrwm o dangyflawni gan grwpiau o ddisgyblion ar sail data cyrhaeddiad.

**Lles: Da**

Mae disgyblion yn hapus iawn yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach. Maent hefyd yn deall pwysigrwydd ffitrwydd ac yn cael cyfle da i brofi amrywiol weithgareddau i atgyfnerthu hyn drwy glybiau megis y clybiau chwaraeon, y clwb coginio a'r gweithgarwch ysgol iach. Mae'r gweithgareddau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu datblygiad i fod yn unigolion cyfrifol.

Mae ymddygiad y disgyblion ar draws yr ysgol yn dda iawn ac maent yn dangos cwrteisi a pharch at staff ac ymwelwyr. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfrannu'n dda yn y gwersi, yn cydweithio'n effeithiol ac yn cynnal dysgu ei gilydd yn y dosbarth. Maent oll yn dangos parch a gofal tuag at ei gilydd.

Mae lefelau presenoldeb yr ysgol wedi codi'n arwyddocaol dros y tair blynedd ddiwethaf. Bellach, mae'r ysgol yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg o ran lefelau cinio am ddim.

Mae gwaith y cyngor ysgol a'r cyngor eco yn datblygu'n dda ac mae'r disgyblion yn cael cyfle i fod yn rhan o benderfyniadau am ddatblygiadau'r ysgol. Mae'r disgyblion hefyd wedi datblygu rheolau'r dosbarth a'r ysgol er lles eu cyd-ddisgyblion. Maent hefyd yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau yn y gymuned sy'n cyfoethogi eu profiadau. Mae'r athrawon yn gwerthfawrogi barn y disgyblion ac yn gweithredu ar eu hawgrymiadau yn ofalus.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu amrywiol a diddorol i'r disgyblion. Mae'r cwricwlwm yn gytbwys ac yn ymdrin â holl ofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae gan yr ysgol gynlluniau priodol ar waith i gwrdd â gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

Mae'r cynllun masnachol a ddefnyddir drwy'r ysgol yn addas ar gyfer cwrdd ag anghenion disgyblion y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. Mae'r athrawon yn addasu'r cynllun yn ofalus i sicrhau bod digon o gyfleoedd i'r disgyblion gael gwybodaeth am y diwylliant Cymreig. Mae athrawon yn adolygu eu cynllunio yn rheolaidd ac yn sicrhau ei fod yn adeiladu'n effeithiol ar ddysgu blaenorol. Maent yn cynllunio'n briodol ar gyfer datblygu medrau, yn arbennig mewn llythrennedd a rhifedd. Maent hefyd yn addasu ac yn ychwanegu at y cwricwlwm er mwyn cwrdd ag anghenion penodedig y disgyblion.

Caiff gweithgareddau dysgu eu cyfoethogi ymhellach trwy ystod dda o weithgareddau ymarferol diddorol drwy'r ysgol, gan gynnwys y clwb garddio a'r clwb coginio. Mae profiad disgyblion hefyd yn cael ei gyfoethogi gydag ymweliadau addysgol i'r Amgueddfa Genedlaethol a Sain Ffagan yn ogystal â phrofiadau preswyl.

Mae'r ysgol yn talu sylw priodol i ddatblygu medrau iaith Gymraeg y disgyblion. Mae'r athrawon yn bwydo model iaith gyfoethog i'r disgyblion yn gyson yn y gwersi ac yn cynnig digon o gyfleoedd iddynt ymarfer patrymau iaith newydd. Mae'r ysgol yn sicrhau bod pwyslais addas ar y dimensiwn Cymreig yn y cynlluniau gwaith. Ar hyn o bryd, mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn astudio bywyd y Celtiaid. Maent wedi ymweld â thŷ crwn yn Sain Ffagan i weld bywyd dyddiol y Celtiaid cynnar.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg gynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn datblygu'n dda yn yr ysgol. Drwy waith y cyngor eco, mae'r disgyblion yn cynyddu eu hymwybyddiaeth o faterion fel ailgylchu ac arbed ynni ac yn helpu'r ysgol i weithredu'n gynaliadwy. Datblygwyd ymwybyddiaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang trwy ymweliad athrawon o Lesotho â'r ysgol yn ddiweddar.

**Addysgu: Da**

Mae'r holl athrawon a'r staff cymorth yn gweithio'n effeithiol fel tîm. Mae ganddynt wybodaeth bynciol addas ac maent yn defnyddio ystod eang o strategaethau i annog ac ysbrydoli'r disgyblion. Defnyddiant amrywiaeth o ddulliau ac adnoddau addysgu o ansawdd addas, sy'n ennyn diddordeb bron pob un o'r disgyblion. Mae'r athrawon hefyd yn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau technoleg gwybodaeth er mwyn hybu ac ymestyn medrau'r disgyblion. Maent yn llwyddo i ennyn brwdfrydedd ddisgyblion am dechnoleg ac maent yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ymarfer eu medrau ymchwilio ar gyfrifiaduron a llechi.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae'r athrawon yn annog y disgyblion i ddatblygu medrau gweithio'n annibynnol, mewn parau a grwpiau yn effeithiol. Maent yn paratoi gweithgareddau diddorol ar eu cyfer. Maent hefyd yn annog y disgyblion i berchnogi

eu dysgu trwy gynllunio ar y cyd, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen. Maent yn darparu cyfleoedd priodol ar gyfer datblygu medrau'r disgyblion ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn herio nac yn ymestyn disgyblion mwy abl a thalentog i'w potensial.

Yn gyffredinol, mae athrawon yn marcio gwaith ysgrifenedig disgyblion yn effeithiol ac anogir y disgyblion i wella eu gwaith trwy ymateb i sylwadau craff yr athrawon. Fodd bynnag, ar adegau mae'r marcio yng nghyfnod allweddol 2 yn tueddu i fod yn orfanwl ac nid yw'n cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion ymateb yn addas i'r sylwadau hyn. Mae'r athrawon, ar y cyd â'r disgyblion, yn gosod targedau unigol addas iddynt. Mae'r athrawon a'r disgyblion yn adolygu'r targedau hyn yn rheolaidd.

Mae'r athrawon yn asesu cynnydd disgyblion yn rheolaidd ac yn briodol, gan ddefnyddio asesiadau ffurfiol a barn broffesiynol yr athrawon. Mae'r ysgol yn olrhain cynnydd disgyblion yn rheolaidd a defnyddir y wybodaeth yn effeithiol i adnabod a chefnogi anghenion dysgu unigolion.

Caiff y rhieni wybodaeth dda iawn am gynnydd a lles eu plant yn rheolaidd. Mae ansawdd yr adroddiadau i'r rhieni yn dda ac yn ateb y gofynion statudol.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae'r ysgol yn adnabod anghenion y disgyblion hyn yn gynnar ac yn sicrhau'r gefnogaeth briodol iddynt. Mae gan ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol fynediad llawn i holl feysydd y cwricwlwm ac mae eu cynlluniau addysg unigol o ansawdd da. Gwneir defnydd effeithiol o gymorth gwasanaethau arbenigol allanol ar eu cyfer.

Mae hon yn ysgol hapus lle teimla'r disgyblion yn ddiogel a chânt gyngor priodol ar sut i gadw'n ddiogel. Mae gan yr ysgol y trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Caiff disgyblion gyfleoedd da i hybu iechyd a ffitrwydd drwy amrywiol brofiadau addysg gorfforol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo a chefnogi iechyd a lles disgyblion yn effeithiol ac mae ganddi bolisïau priodol ar waith. Mae'r ysgol hefyd yn datblygu agweddau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn addas. Mae'r holl bolisïau hyn yn cael eu cyfathrebu'n dda gyda rhanddeiliaid. Mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd da i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb a lleisio barn ar ddatblygiadau sy'n gwella'r ysgol drwy eu gwaith gyda'r Cyngor Ysgol a'r cyngor eco. Yn sgil hyn, maent yn rhoi cyfle iddynt helpu ei gilydd a bod yn rhan o wella'r ysgol.

Mae bron pob disgybl yn cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd, ac yn deall pwysigrwydd gwerthoedd fel parch a chyfeillgarwch er mwyn gweithio'n llwyddiannus fel cymuned. Mae disgyblion o bob oed yn cynnig cymorth a chyfeillgarwch i eraill ac mae disgyblion hŷn yr ysgol yn gofalu am ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn dyner a gofalus.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth effeithiol ar faterion addysgol, cymdeithasol a phersonol y disgyblion. Mae'n cydweithio'n agos iawn ag asiantaethau allanol ac yn sicrhau bod y disgyblion yn elwa o'r cymorth perthnasol sydd ar gael ar eu cyfer.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan Ysgol Glan Ceubal ethos hapus a chefnogol ac mae pawb yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau'r cyfleoedd gorau i'r disgyblion. Mae'r ysgol yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn effeithiol drwy ei pholisïau a'i gweithdrefnau ac mae'r rhain yn hysbys i bawb o randdeiliaid yr ysgol. Rhoddir cyfle cyfartal a mynediad llawn i weithgareddau'r cwricwlwm i bob disgybl.

Ar y cyfan, mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu ysgogol a deniadol i'r disgyblion. Gwelir arddangosfeydd lliwgar o waith a chyfrifoldebau'r disgyblion yn y coridorau ac ystafelloedd dosbarth yr ysgol. Caiff yr holl adeilad ei gadw'n lan a'i gynnal yn addas. Fodd bynnag, nid yw'r ardaloedd allanol megis ardal y Cyfnod Sylfaen wedi eu datblygu i'w llawn botensial hyd yn hyn a chyfyng yw'r cyfleusterau chwarae ar y buarth.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth gweithredol dros dro wedi cynnwys staff, disgyblion a rhieni yn llwyddiannus wrth greu gweledigaeth glir a chytûn ar gyfer yr ysgol. Ers ei benodi ym Medi 2012, mae ef wedi rhoi sefydlogrwydd i'r ysgol ac wedi gosod seiliau cadarn i ddatblygu'r ysgol ymhellach i'w llawn twf. Mae'r ddau bennaeth cynorthwyol hefyd yn cynnig arweiniad clir i'r ysgol. Mae hyn wedi creu ethos cryf a chynhwysol lle gwerthfawrogir pob disgybl yn gyfartal.

Mae datblygiad proffesiynol parhaus yn cefnogi blaenoriaethau'r ysgol yn glir. Nodwedd amlwg o'r ysgol yw'r gwaith tîm llwyddiannus a geir yma. Mae prosesau rheoli perfformiad yn gosod targedau realistig sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau'r ysgol. Mae'r staff yn canolbwyntio'n briodol ar agweddau hunanarfarnol gan ganolbwyntio ar faterion gwella'r ysgol. Cyfranna hyn oll yn effeithiol tuag at godi safonau ar lawr y dosbarth ac at adnabod anghenion y disgyblion. Mae'r pwyslais bob tro ar ddisgwyliadau uchel, hapusrwydd a lles y disgyblion yn yr ysgol.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i waith yr ysgol. Maent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn ymateb i ofynion statudol yn glir. Mae'r llywodraethwyr yn dangos dealltwriaeth o berfformiad yr ysgol mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill y teulu, yr awdurdod ac yn genedlaethol. Maent yn ymweld â'r ysgol fel unigolion yn gyson ond nid yw eu rôl yn herio'r ysgol fel cyfeillion beirniadol wedi datblygu'n llawn.

Mae'r ysgol yn talu sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol gan gynnwys cynllunio er mwyn codi safonau llythrennedd a rhifedd ar draws yr ysgol. Er enghraifft, mae'r Cyfnod Sylfaen wedi'i sefydlu'n gadarn ac mae blaenoriaethau llythrennedd a rhifedd yn cael lle blaenllaw yng ngwaith cynllunio'r ysgol.

## Gwella ansawdd: Da

Mae gan y tîm rheoli ffocws clir ar wella safonau. Ystyrir barn holl randdeiliaid yr ysgol yn yr adroddiad hunanarfarnu. Mae'r ysgol yn cymryd gofal wrth asesu ei chryfderau a'i gwendidau ac mae'r asesiad hwn yn onest a realistig. Mae gweithdrefnau clir ar waith ar gyfer arsylwi mewn ystafelloedd dosbarth. Mae gan yr ysgol systemau cymedroli mewnol effeithiol. Mae'r athrawon hefyd yn cydweithio gyda staff yr ysgol Gymraeg gyfagos i sicrhau cysondeb wrth lefelu gwaith disgyblion ar draws y ddwy ysgol.

Defnyddir gwybodaeth o'r hunanarfarniad yn effeithiol iawn i ddatblygu a blaenoriaethu cynlluniau gwella, gyda ffocws clir ar godi safonau. Mae datblygiad proffesiynol parhaus y staff yn effeithio'n gadarnhaol ar ddarpariaeth gwricwlaidd yr ysgol. Mae'r ysgol wedi bod yn hynod effeithiol yn sicrhau gwelliannau dros y deunaw mis diwethaf ac wedi llwyddo i wneud cynnydd da wrth flaenoriaethu gwelliannau hyn yn bwrpasol ac yn ofalus.

Mae'r ysgol wedi sefydlu rhwydweithiau effeithiol iawn o arfer broffesiynol yn yr ysgol a chydag ysgolion a phartneriaid eraill. Mae'r staff yn manteisio ar bob cyfle i ddatblygu eu harbenigedd ac yn awyddus iawn i gymryd rhan mewn gweithgareddau i wella eu heffeithiolrwydd, er enghraifft trwy fynychu cyrsiau i addysgu mathemateg a llythrennedd cynnar. Mae'r ysgol yn defnyddio ystod dda o ddata i fonitro cynnydd disgyblion unigol a grwpiau o ddisgyblion yn effeithiol.

## Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae partneriaethau da gyda rhieni a gofalwyr ac mae bron pob un ohonynt yn gwerthfawrogi polisi drws agored yr ysgol. Mae'r cyfathrebu rheolaidd a'r cylchlythyron lliwgar a deniadol yn rhoi darlun da o waith yr ysgol a chyflawniadau'r disgyblion. Mae'r ysgol yn casglu barn rhieni yn gyson. Yn sgil gweithredu ar y sylwadau hyn mae'r ysgol yn cynnig adborth buddiol i rieni o'r hyn a gyflawnwyd. Mae'r rhieni yn hyderus bod yr ysgol yn ystyried eu safbwyntiau yn dda.

Mae athrawon yn cydweithio'n agos ag ysgol Gymraeg gynradd leol i rannu profiadau o ran datblygu staff a chymorthyddion. Rhennir syniadau a dulliau cyflwyno amrywiol mewn pynciau fel llythrennedd a rhifedd ac mae hyn wedi cael dylanwad cryf ar godi safonau. Mae gwaith cymedroli effeithiol yn digwydd yn y pynciau craidd, gydag athrawon o'r ysgol yn arwain y gwaith mewn agweddau fel anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r cysylltiadau trosglwyddo rhwng y darparwyr meithrin lleol a'r ysgol yn dda. Mae'r paratoadau i drosglwyddo disgyblion ymhen dwy flynedd i'r ysgol gyfun Gymraeg gyfagos eisoes wedi cychwyn. Lleolir canolfan hwyrddyfodiaid Caerdydd yn yr ysgol ac mae disgyblion y ganolfan yn elwa'n fawr o'r cysylltiad gyda disgyblion yr ysgol. Mynycha nifer fach o ddisgyblion yr ysgol y ganolfan ar hyn o bryd.

Ceir cysylltiadau adeiladol gyda busnesau lleol fel y ganolfan arddio a'r llyfrgell leol. Mae'r disgyblion yn elwa'n fawr o ymweliadau oddi ar safle'r ysgol i sefydliadau fel yr Amgueddfa Genedlaethol a Sain Ffagan. Mae'r ysgol wedi croesawu nifer o

ymwelwyr i siarad am eu gwaith, er enghraifft aelodau o fad achub Penarth ac athrawon o Lesotho.

**Rheoli adnoddau: Da**

O ystyried sefyllfa a maint presennol yr ysgol, mae’r arweinwyr yn gwneud penderfyniadau doeth parthed y defnydd gorau o’r adnoddau sydd ar gael ar y safle. Mae gwariant wedi’i gysylltu’n glir â blaenoriaethau cynllun gwella’r ysgol. Mae’r rheolwyr a’r awdurdod addysg yn monitro ac yn rheoli gwariant yn ofalus; enghraifft o hyn yw’r cynllun sydd yn ei le i ddileu gorwariant o wyth mil o bunnoedd yn ystod y flwyddyn gyfredol.

Mae’r ysgol yn sicrhau bod y cwricwlwm yn cael ei gyflwyno a’i weithredu yn effeithiol. Mae staff yr ysgol wedi creu ardaloedd dysgu ac amgylchedd lliwgar a deniadol i’r disgyblion. Caiff athrawon eu cefnogi’n dda gan y cymorthyddion dosbarth sy’n rhoi cymorth cadarn i unigolion a grwpiau o ddisgyblion, yn ôl yr angen. Mae sustemau arsylwi gwersi a gosod amcanion i’r staff yn gweithio’n llwyddiannus i sicrhau ansawdd y cwricwlwm.

Mae trefniadau priodol ar waith ar gyfer rheoli perfformiad y staff addysgu a’r cymorthyddion dosbarth. Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o'u hamser ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu.

Oherwydd y safonau a gyflawnir gan y rhan fwyaf o ddisgyblion yn y dosbarth, ansawdd yr addysgu, safon y gofal, y gefnogaeth a ddarperir a’r rheolaeth briodol ar y gyllideb, mae’r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Mae niferoedd bach o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn a all effeithio'n sylweddol ar berfformiad cyffredinol yr ysgol mewn asesiadau ar ddiwedd cyfnod allweddol o'i gymharu â meincnodau cenedlaethol o un flwyddyn i'r nesaf.

Yn 2013, roedd canran disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cyflawni'r dangosydd Cyfnod Sylfaen yn is na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion a Chymru. Roedd cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'n uwch na'r lefel ddisgwyliedig hefyd yn is ym mhob maes dysgu.

O gymharu canlyniadau'r ysgol ag ysgolion tebyg o ran y canran o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, roedd yr ysgol yn perfformio yn y 50% isaf ar gyfer yr holl ddangosyddion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Yn 2012, roedd yr ysgol yn perfformio yn y 25% uchaf ar gyfer yr holl ddangosyddion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.

Nid yw'n bosibl dod i farn ystyrlon ar batrwm o dangyflawni gan grwpiau o ddisgyblion ar sail data cyrhaeddiad oherwydd bod carfanau bach iawn yn yr ysgol. Mewn gwersi, ac mewn llyfrau gwaith disgyblion, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gwaith.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

### Arolwg Cynradd (Pob Disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 12 | 12<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 12 | 11<br>92%<br>92% | 1<br>8%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 12 | 12<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 12 | 12<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 12 | 12<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 12 | 12<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 12 | 12<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 12 | 12<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 12 | 12<br>100%<br>91% | 0<br>0%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 12 | 12<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 12 | 10<br>83%<br>78% | 2<br>17%<br>22% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 12 | 3<br>25%<br>84% | 9<br>75%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

# Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 15 | 9 | 5 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 60% | 33% | 7% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 14 | 11 | 2 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 79% | 14% | 7% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 15 | 13 | 1 | 1 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 87% | 7% | 7% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 15 | 9 | 5 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 60% | 33% | 7% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 0% | | |
| Pupils behave well in school. | 13 | 4 | 7 | 1 | 0 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 31% | 54% | 8% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 15 | 11 | 3 | 1 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 73% | 20% | 7% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 15 | 12 | 2 | 1 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 80% | 13% | 7% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 15 | 9 | 4 | 2 | 0 | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 60% | 27% | 13% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 15 | 11 | 3 | 1 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 73% | 20% | 7% | 0% | | |
| | | 58% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 15 | 10 | 4 | 1 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 67% | 27% | 7% | 0% | | |
| | | 60% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 15 | 13 | 1 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 87% | 7% | 7% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 15 | 11 | 2 | 1 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 73% | 13% | 7% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 15 | 12 | 2 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 80% | 13% | 7% | 0% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 15 | 12<br>80% | 2<br>13% | 1<br>7% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 14 | 8<br>57% | 5<br>36% | 1<br>7% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 15 | 8<br>53% | 5<br>33% | 2<br>13% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 14 | 7<br>50% | 4<br>29% | 1<br>7% | 0<br>0% | 2 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 15 | 9<br>60% | 4<br>27% | 2<br>13% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 15 | 8<br>53% | 6<br>40% | 1<br>7% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 33% | 3% | 1% | | |

# Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Ann Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Kenneth Davies | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Alun Williams | Arolygydd Cymheiriaid |
| Aled Jones | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.